

## **Cyfarwyddydau Safonol ar gyfer Rhestrau Ardrethu 2023 ac wedyn**

Mae'r cyfarwyddydau hyn yn gymwys i apelau Ardrethu Annomestig a gyflwynir yn erbyn Rhestrau Ardrethu a luniwyd ar 1 Ebrill 2023 neu wedi hynny ac maent yn orchmynion ffurfiol y mae'n rhaid cydymffurfio â hwy. Fe'u bwriedir er mwyn cynorthwyo partïon a'r Tribiwnlys i ddelio ag apelau yn deg ac i osgoi oedi wrth eu penderfynu.

Caiff parti wneud cais i'r Tribiwnlys i unrhyw un o'r cyfarwyddydau hyn, gan gynnwys terfynau amser, gael ei amrywio, neu i unrhyw gyfarwyddyd priodol arall gael ei roi.

Mae unrhyw gyfeiriad at "y Rheoliadau" o fewn y cyfarwyddydau hyn yn cyfeirio at Reoliadau Ardrethu Annomestig (Newid Rhestrau ac Apelau) (Cymru) 2023.

### **1. Cyfarwyddydau ynglŷn â gwybodaeth a thystiolaeth hysbysiad apêl**

(1) Heb fod yn hwyrach na phedair wythnos ar ôl cael gwybod am yr apêl, mae'n rhaid i'r Swyddog Prisio sy'n ymateb gyflwyno hysbysiad ar y Tribiwnlys a phob parti i'r apêl os yw'n credu na chyflwynwyd yr apêl gyda'r dystiolaeth neu'r wybodaeth sy'n angenrheidiol yn ôl rheoliad 26(3) y Rheoliadau. Mae'n rhaid i'r hysbysiad:

(a) yn achos deunydd sydd yn eisiau, ddatgan y dyddiad pan ddatgelwyd yr wybodaeth neu'r dystiolaeth o dan reoliad 16, darparu tystiolaeth ategol o'i wasanaeth, a darparu copi o'r deunydd sydd yn eisiau;

(b) yn achos deunydd a gyflwynwyd gyda'r apêl ond heb ei ddatgelu o dan reoliad 15, nodi'r deunydd a datgan pam maent yn gwrthwynebu ei gynnwys; ac

(c) ym mhob achos, cynghori'r apelydd y gall wrthwynebu yn unol â pharagraff 1(2).

(2) Heb fod yn hwyrach na dwy wythnos ar ôl cyflwyno hysbysiad ar y partïon fel y gosodir uchod (lle mae anghydfod ynghylch deunydd a ddarparwyd gyda'r apêl), gall yr apelydd gyflwyno hysbysiad ar yr atebydd, unrhyw barti arall i'r apêl a'r Tribiwnlys sy'n codi anghydfod am yr hysbysiad a rhoi rhesymau pam y dylid neu na ddylid cynnwys y deunydd.

(3) Pan fo anghydfod o'r fath yn codi, bydd y Tribiwnlys yn penderfynu'r pwynt ar y papurau, mewn adolygiad cyn gwrandawriad neu fel pwynt rhagarweiniol yn y gwrandawriad ei hun. Os nad yw'r apelydd yn codi anghydfod am gynnwys neu ddiddymu'r dystiolaeth neu'r wybodaeth a ddarparwyd gan yr atebydd, caiff ei hychwanegu neu ei diddymu'n awtomatig o ddogfennau'r apêl a ystyrir gan y Tribiwnlys wrth waredu'r apêl.

### **2. Cyfarwyddydau ynglŷn â cheisiadau i estyn neu fyrhau'r amser ar gyfer cydymffurfio â'r rheoliadau**

(1) Mae Rheoliad 44(3)(a) yn caniatáu i TPC estyn neu fyrhau'r amser ar gyfer cydymffurfio ag unrhyw reoliad. Dylid gwneud unrhyw gais i amrywio'r amser ar gyfer

cydymffurfio â'r rheoliadau mewn ysgrifen i Clerc y Tribiwnlys a'i gopïo i bob parti i'r apêl (oni wneir y cais cyn cyflwyno'r apêl).

(2) Pan fo pob parti wedi cytuno mewn ysgrifen i'r cais am amrywio'r terfynau amser, mae'n rhaid darparu copi o'r cytundeb(au) i'r Tribiwnlys adeg cyflwyno'r cais.

(3) Pan fo cais yn cael ei wneud o dan baragraff 2(1) uchod, gan ddechrau o'r dyddiad y cyflwynir y cais arnynt, bydd gan bartïon i'r apêl ddwy wythnos i godi unrhyw wrthwynebiad, mewn ysgrifen, gyda'r Tribiwnlys a rhoi copïau i bob parti arall.

(4) Mae penderfyniad y Clerc ynglŷn ag unrhyw amrywiad yn yr amser ar gyfer cydymffurfio â'r rheoliadau yn derfynol ac nid oes hawl apelio.

### **3. Cyfarwyddydau ynglŷn â chyflwyno apelau hwyr**

(1) Rhaid i hysbysiad apêl a gyflwynir yn hwyrach na'r terfyn amser perthnasol gael rhesymau am ei gyflwyniad hwyr i gyd-fynd ag ef.

(2) Bydd y Llywydd yn ystyried y rhesymau a roddwyd ac yn penderfynu a dderbynnir yr apêl y tu allan i'r terfyn amser rhagnodedig yn unol â rheoliad 25(3), ar yr amod fod hysbysiad yr apêl yn cwrdd â'r gofynion ym mhob ffordd arall.

(3) Mae penderfyniad y Llywydd o ran derbyn apêl hwyr neu beidio yn derfynol ac nid oes hawl apelio i'r Tribiwnlys yn erbyn eu penderfyniad.

### **4. Cyfarwyddydau Safonol ar gyfer apelau Ardrethu Annomestig a gyflwynir gyda hysbysiad am wrandawriad**

#### **Tystiolaeth bellach**

(1) Rhaid cyflwyno unrhyw gais am dderbyn tystiolaeth newydd o dan reoliad 50 mewn ysgrifen i'r Tribiwnlys a'i gopïo i bob parti arall i'r apêl heb fod yn hwyrach na phedair wythnos cyn dyddiad y gwrandawriad.

(2) Pan fo pob parti wedi cytuno mewn ysgrifen i gyflwyno tystiolaeth newydd, rhaid darparu copi o'r cytundeb(au) i'r Tribiwnlys adeg gwneud y cais am dderbyn tystiolaeth newydd.

(3) Os yw'r cais am dderbyn tystiolaeth newydd yn ymwneud â'r seiliau y gwnaed y cynnig arnynt, os nad oedd yn hysbys i'r parti ac phe na allai'r parti fod wedi cael gafael arno yn rhesymol cyn penderfynu'r cynnig o dan Ran 2 y Rheoliadau, rhaid i'r cais hwnnw nodi:

- (a) pam nad oedd y dystiolaeth ar gael yn gynt; a
- (b) pha bryd y daeth i feddiant y parti.

(4) Pan fo cais yn cael ei wneud o dan baragraff 4(3) uchod, gan ddechrau o'r dyddiad y rhoddir yr hysbysiad iddynt yn gofyn am gynnwys y dystiolaeth newydd,

mae gan bartïon i'r apêl ddwy wythnos i godi unrhyw wrthwynebiad, mewn ysgrifen, gyda'r Tribiwnlys a rhoi copïau i bob parti arall.

(5) Pan fo'r Tribiwnlys yn penderfynu derbyn tystiolaeth newydd, bydd yn hysbysu'r partïon i'r apêl a chaiff unrhyw barti arall wneud cais o fewn wythnos i'r hysbysiad gan y Tribiwnlys i dystiolaeth newydd bellach gael ei hystyried yn y gwrandawriad. Wrth wneud y cais rhaid i'r parti ddatgan:

- (a) sut mae'n ymwneud â'r dystiolaeth y mae'r Tribiwnlys eisoes wedi cytuno i'w chynnwys; a
- (b) sut mae'n ymwneud â'r seiliau y gwnaed y cynnig arnynt.

(6) Rhaid i'r cais gael copi o'r dystiolaeth y mae'r parti yn dymuno ei chynnwys i gyd-fynd ag ef a rhaid i gopïau o'r cais a'r dystiolaeth gael eu cyflwyno i bob parti arall ar yr un pryd. Mae gan y partïon hynny wythnos o ddyddiad cyflwyno'r cais i godi unrhyw wrthwynebiad mewn ysgrifen i'r Tribiwnlys, gan gopïo pob parti arall i mewn.

## **Y gwrandawriad**

(7) Disgwylir i bob parti ymddangos yn y gwrandawriad.

(8) Os yw parti eisïau i'r achos gael ei glywed mewn gwrandawriad heb iddynt fod yn bresennol, rhaid iddynt roi gwybod i'r Tribiwnlys o leiaf ddwy wythnos cyn y gwrandawriad.

(9) Pan fo cynnig i ddod i gytundeb wedi cael ei wneud gan yr atebydd ond mae'r apêl yn ddyledus o hyd, gall y panel gadarnhau'r ffigur yn y gwrandawriad os caiff copi o'r cynnig a gytunwyd ei gyflwyno i'r Tribiwnlys gan yr atebydd, ymlaen llaw, ynghyd â chais i gadarnhad gael ei wneud.

(10) Dylid cyfnewid datganiadau o achos, cynlluniau a ffotograffau rhwng y partïon a'u hanfon ymlaen at y Tribiwnlys o leiaf ddwy wythnos cyn y gwrandawriad.

(11) Gellid dileu neu wrthod apêl unrhyw apelydd sy'n methu â chydymffurfio â'r cyfarwyddydau hyn. Os bydd atebydd neu unrhyw barti arall ar wahân i'r apelydd, yn methu â chydymffurfio â'r cyfarwyddydau hyn, gall y Tribiwnlys benderfynu eu gwahardd rhag cymryd rhan bellach yn yr achos, er y bydd yr apêl yn cael ei chlywed o hyd ar sail y dogfennau a gyflwynwyd gyda'r apêl ac unrhyw dystiolaeth newydd a ganiateir.

## **5. Amrywio'r Cyfarwyddydau hyn**

(1) Gall parti wneud cais i'r Tribiwnlys i unrhyw un o'r cyfarwyddydau hyn, gan gynnwys terfynau amser, gael ei amrywio, neu i unrhyw gyfarwyddyd priodol arall.

## **6. Cyffredinol**

(1) Rhaid i weithred y mae'r cyfarwyddydau hyn yn gofyn iddi gael ei gwneud erbyn dyddiad penodol, gael ei gwneud erbyn 5yh ar y diwrnod hwnnw.

(2) Oni bai nad oes gan barti fynediad at ebost, rhaid cyflwyno pob dogfen a chais sy'n cael eu ffeilio o dan y cyfarwyddydau hyn yn electronig ar y Tribiwnlys ac unrhyw barti sydd wedi darparu cyfeiriad ebost at wasanaeth yr achos (oni bai eu bod yn gwrthwynebu gwasanaeth yn y dull hwn).

### ***Nodyn Esboniadol ar gyfer y Cyfarwyddydau Safonol i apelau Ardrethu Annomestig Rhestr 2023 a Rhestrau hwyrach***

Mae'r cyfarwyddydau hyn yn nodi'r ffordd y mae'r Tribiwnlys yn cynnal achosion yn dilyn diwygio apelau ardrethu gan Lywodraeth Cymru a newidiadau i'r ddeddfwriaeth, yn benodol:

Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Newid Rhestrau ac Apelau) (Cymru) 2023

#### ***Gwybodaeth a thystiolaeth apêl***

1) Penderfynir ar yr apêl ar sail y ddogfennaeth a ddarperir adeg gwneud yr apêl (oni chaniateir tystiolaeth newydd gan y Tribiwnlys). Felly mae'n bwysig fod tystiolaeth a gwybodaeth y dymuna'r naill barti neu'r llall ddibynnu arni pan benderfynir ar yr apêl yn cael eu cyflwyno gyda'r apêl. Gan nad yw'r atebydd yn cyflwyno eu tystiolaeth a'u gwybodaeth eu hunain i'r Tribiwnlys ond yn dibynnu ar gopiâu a ddarperir gan yr apelydd, mae'n bwysig fod gan yr atebydd gyfle i archwilio'r hyn a gyflwynwyd.

2) Pan fo'r apelydd yn ystyried fod gwybodaeth a thystiolaeth a ddarparwyd pan oedd y cynnig yn cael ei ystyried yn eisiau o ddogfennaeth yr apêl, neu fod tystiolaeth neu wybodaeth wedi'i chynnwys gyda'r apêl na chafodd ei darparu gan y partïon pan oedd y cynnig yn cael ei ystyried, mae ganddynt gyfle i ddod â hyn i sylw'r Tribiwnlys a'r partïon eraill o fewn pedair wythnos i dderbyn manylion yr apêl.

3) Os yw'r apelydd yn gwrthwynebu cynnwys neu eithrio'r wybodaeth y cyfeirir ati gan yr atebydd, mae'n bwysig iddynt wneud hynny o fewn dwy wythnos i dderbyn hysbysiad gan yr atebydd. Rhaid iddynt esbonio pam maent yn gwrthwynebu a darparu tystiolaeth ategol. Os nad yw'r apelydd yn gwrthwynebu o fewn dwy wythnos, gall y Tribiwnlys a'r atebydd dybio nad oes anghydfod ynglŷn â'r deunydd a'i fod yn ffurfio neu nad yw'n ffurfio rhan o ddogfennaeth yr apêl.

4) Pan gyfyd anghydfod, bydd y Tribiwnlys yn ceisio datrys materion ar y papurau cyn y gwrandawriad, os oes modd, neu fe all drefnu adolygiad cyn gwrandawriad i benderfynu ar y pwynt neu fe allai benderfynu datrys yr anghydfod fel mater rhagarweiniol yn y gwrandawriad. Bydd y Tribiwnlys yn rhoi gwybod i'r partïon am sut mae'n bwriadu gweithredu.

#### ***Estyn neu fyrhau cyfnodau amser ar gyfer cydymffurfio***

5) Dylid cyflwynio ceisiadau i amrywio'r amser ar gyfer cydymffurfio â'r rheoliadau mewn ysgrifen i Glerc y Tribiwnlys (ac unrhyw bartïon eraill i'r apêl) ar y cyfle cynharaf posibl a chyn i unrhyw derfyn amser rheoliadol ddod i ben.

## ***Cyflwyno apelau yn hwyr***

6) Yn achos apelau a gyfwynir i'r Tribiwnlys yn hwyrach na'r terfyn amser statudol, rhaid amgáu rhesymau am eu cyflwyno'n hwyr ac y bydd y Llywydd yn eu hystyried os yw hysbysiad yr apêl yn cydymffurfio ym mhob ffordd arall. Ni cheir camau cywiro pellach os yw'r Llywydd yn penderfynu na ddylid ystyried yr apêl.

## ***Tystiolaeth bellach***

7) Mae cyfyngiadau deddfwriaethol ynglŷn â'r dystiolaeth y caiff y Tribiwnlys ei derbyn ar ôl cyflwyno dogfennaeth yr apêl. Mae dwy ffordd y gellir derbyn tystiolaeth:

a) pan fo pob parti yn cytuno mewn ysgrifen i'r dystiolaeth gael ei darparu; neu

b) pan fo'r dystiolaeth a ddarperir gan barti yn ymwneud â seiliau'r cynnig ac nad oedd yn hysbys i'r parti cyn i'r atebydd godi hysbysiad am benderfyniad neu, os na chodwyd un, y torbwynt ar gyfer ei godi (hynny yw y dyddiad pan ellir gwneud apêl).

8) Rhaid gwneud cais o'r fath bedair wythnos cyn dyddiad y gwrandawriad. Wrth wneud cais, rhaid rhoi'r dystiolaeth newydd i bob parti ac i'r Tribiwnlys.

9) Pan fo'r Tribiwnlys yn caniatáu tystiolaeth newydd, gall partïon eraill i'r apêl geisio darparu tystiolaeth bellach eu hunain mewn ymateb, ar yr amod ei bod yn ymwneud â'r dystiolaeth newydd ac o fewn seiliau'r cynnig.

10) Gall partïon wrthwynebu unrhyw gais i gynnwys tystiolaeth newydd mewn ysgrifen ond o wneud hynny rhaid iddynt roi eu rhesymau o fewn y raddfa amser a ragnodir.

## ***Y gwrandawriad***

11) Oni roddir gwybod iddo fel arall, mae'r Tribiwnlys yn tybio y bydd pob parti yn mynychu'r gwrandawriad.

12) Os na fydd yr apelydd yn bresennol, heb roi gwybod ymlaen llaw eu bod yn dymuno i'r Tribiwnlys glywed yr achos yn eu absenoldeb, mae perygl y gallai'r apêl gael ei dileu neu ei gwrthod. Os nad yw'r atebydd neu unrhyw barti arall yn bresennol, â'r Tribiwnlys ymlaen i glywed yr apêl a dod i benderfyniad yn ei chylch ar sail y cyflwyniadau gan y partïon sy'n bresennol, y ddogfennaeth a gyflwynwyd gyda ffurflen yr apêl ac unrhyw dystiolaeth newydd a ganiateir.